Llinellfusnes

Gwybodaeth Fusnes yn Llyfrgell Wrecsam

Pecyn Trosolwg o'r Gwasanaeth

Gadewch i'n

Gwybodaeth

weithio i chi!

Llyfrgell Wrecsam, Ffordd Rhosddu, Wrecsam LL11 1AU

(01978) 292092
businessline@wrecsam.gov.uk

Wrexham Council / Cyngor Wrecsam

CYNNWYS

Cyflwyniad i Linell Fusnes 1

Dechrau busnes 2-3

- Pecyn Dechrau Busnes Llinell Fusnes 2
- Proffiliau Cyfle Busnes 3
- Llyfrau ar gael i'w benthyg 3

Grantiau, benthyciadau a gwobrau busnes 4

Canolbwynt busnes CCH - gwybodaeth am y farchnad 5-6

Ymchwilio eich marchnad 7-8

- Adroddiadau Allweddol 7
- Euromonitor 7
- Crynodebau o Farchnadoedd y DU 8
- Ystadegau Demograffig 8

Rhedeg eich busnes 9-10

- Taflenni Gwybodaeth Busnes 9
- Llyfrau ar gael i'w benthyg 10

Cronfeydd data arbenigol - sut y gallant eich helpu 11-13

- Kompass Extranet 12
- Thomson Business Search Pro 13

Ymchwiliadau i statws credyd 14-15

- Adroddiadau Credit Safe 14
- Adroddiadau ar Gyfarwyddwr a Choed Cwmnïau 15

Rheoli adnoddau dynol 16-17

- Croner I 16
- Meincnodi Cyflogau IDS 17

Llyfrau a chyfeiriaduron busnes 18-20

Rhwydwaith 21

CYFLWYNIAD I LINELL BUSNES

Gwasanaeth proffesiynol gwybodaeth fusnes yw Llinell Fusnes a leolwyd yn Llyfrgell Wrecsam (llyfrgell gyhoeddus fwyaf Gogledd Cymru). Bydd ein tîm profiadol o arbenigwyr gwybodaeth fusnes yn rhoi gwasanaeth wrth fesur sy'n anelu at y gymuned fusnes leol. Rydym ni'n gallu darparu amrywiaeth eang o wasanaethau i helpu busnesau presennol a newydd ynghyd â myfyrwyr busnes. Fel cipolwg, gallwn eich helpu i wneud y canlynol…

- Dechrau busnes newydd / lleihau amser dechrau eich busnes
- Ymchwilio eich marchnad
- Adnabod eich cystadleuwyr
- Cael hyd i gyflenwyr newydd
- Targedu cwsmeriaid newydd / nodi cyfleoedd marchnata
- Cadarnhau statws credyd eich cyflenwyr ac ati
- Rheoli eich staff yn effeithiol
- Rhwydweithio gyda busnesau lleol eraill
- Cadw at ddeddfwriaeth statudol
- Amddiffyn eich syniadau

Rydym yn annog pobl i alw heibio, ein ffonio neu anfon e-bost atom i drafod eu hanghenion gwybodaeth fusnes. Sefydlwyd Llinell Fusnes ers dros ddeng mlynedd ac mae'n rhan o rwydwaith sylweddol o bobl fusnes broffesiynol. Crëwyd y pecyn hwn gyda'r bwriad o roi cipolwg ar ychydig o'n prif adnoddau / gwasanaethau.

DECHRAU BUSNES

Gall dechrau busnes newydd fod yn brofiad cyffrous ond brawychus. Mae gan Linell Fusnes nifer o adnoddau i gynorthwyo busnesau dechreuol newydd, sy'n gallu helpu ateb cwestiynau niferus fydd gennych, fel:

- Pa reoliadau busnes fydd rhaid i mi ddilyn wrth sefydlu?
- Gyda pha sefydliadau ddylwn i gysylltu wrth ddechrau?
- Beth yw manteision ac anfanteision rhedeg busnes o gartref?
- Oes yna unrhyw faterion cyfreithiol i fod yn ymwybodol ohonynt o ran fy syniad busnes arbennig?
- Pa gostau allaf i ddisgwyl wrth ddechrau busnes?
- Pwy yw fy nghystadleuwyr lleol?

Pecyn Dechrau Busnes Llinell Fusnes:

Croeso i chi alw heibio, ffonio neu anfon e-bost i ofyn am becyn am ddim ar ddechrau busnes, sy'n cynnwys y canllawiau canlynol:

- Arweiniad i ysgrifennu cynllun busnes
- Arweiniad i redeg busnes o gartref
- Dewis y statws cyfreithiol cywir i'ch busnes
- Arweiniad i reoliadau busnes wrth ddechrau
- Arweiniad i sefydliadau y mae rhaid i chi gysylltu â hwy wrth sefydlu
- Arweiniad i ymchwilio marchnad busnes wrth ddechrau
- Arweiniad i lunio telerau ac amodau gwerthu
- Cyflwyniad i yswiriant ar gyfer busnesau
- a llawer mwy

DECHRAU BUSNES

Proffiliau Cyfle Busnes:

Mae gennym fynediad at dros 500 o Broffiliau Cyfle Busnes; mae pob un yn ymwneud â dechrau math arbennig o fusnes a rhoi gwybodaeth fel:

- unrhyw hyfforddiant all fod ei angen
- darpar gwsmeriaid a chystadleuwyr
- materion allweddol sy'n effeithio ar y farchnad
- cyfleoedd hyrwyddol
- costau tebygol dechrau busnes
- materion cyfreithiol i'w hystyried
- lle i gael rhagor o wybodaeth ac ati

Gallwn gyfuno pecyn dechrau busnes a Phroffil Cyfle Busnes gyda'i gilydd i greu pecyn sy'n hollol addas i'ch busnes.

Llyfrau ar gael i'w benthyg:

Mae Llinell Fusnes yn dal amrywiaeth eang o lyfrau busnes diweddar yn anelu at rai sy'n mentro am y tro cyntaf, yn canolbwyntio ar feysydd fel dechrau a rhedeg busnes a sut mae eraill wedi dechrau. Mae gennym lyfrau hefyd sy'n arbennig ar gyfer amrywiaeth eang o fathau penodol o fusnes, pob un yn rhoi arweiniad gam wrth gam ar ddechrau eich busnes ac ati. Gwelwch dudalen 18 i gael rhagor o wybodaeth.

GRANTIAU, BENTHYCIADAU A GWOBRAU BUSNES

Mae offeryn cynhwysfawr o'r enw J4B Advisor ar gael i Linell Fusnes ar gyfer chwilio am gyllid i'r sector busnes. Wrth ddefnyddio'r adnodd hwn rydym yn gallu darparu gwybodaeth gywir a ddiweddar ar gynlluniau cyllid lleol, rhanbarthol, cenedlaethol ac Ewropeaidd, sydd ar gael yn eich ardal. Gallwn roi gwybodaeth am gyfleoedd ariannu at bob un o'r dibenion canlynol:

- Dechrau busnes
- Datblygu busnes
- Defnyddio ynni'n effeithlon
- Yr amgylchedd
- Allforio a masnach ryngwladol
- Amaeth a physgota
- Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu
- TG: E-fasnach a'r we
- Logisteg
- Hyrwyddo a marchnata
- Y cyfryngau a'r celfyddydau
- Peiriannau ac offer
- Eiddo ac adeiladau
- Y&D: Cynhyrchion a phrosesau
- Denu staff
- Twristiaeth a threftadaeth
- Hyfforddiant

Yn anffodus ychydig iawn sydd ar gael yn ardal Wrecsam ar hyn o bryd. Gallwn ddarparu crynodeb o ganlyniadau grantiau ar gyfer unrhyw un o'r dibenion a restrwyd uchod. Yna gallwn roi manylion llawn gyda gwybodaeth gyflawn ar gymhwyster cynllun, gwerth, manylion cysylltu, a dogfennau i'w hategu, all fod o ddiddordeb o'r crynodeb.

CANOLBWYNT BUSNES CCH

Canolbwynt Busnes CCH yw'r wybodaeth ystadegol ac arweiniad penodol i ddiwydiant gorau oll ar dros 90 o grefftau a galwedigaethau, yn cwmpasu popeth o gyfrifyddion a chyfreithwyr trwy weithgynhyrchu ac amaeth i fwyd a diod. Gyda'r adnodd hwn rydym yn gallu rhoi adroddiadau sy'n cwmpasu'r meysydd canlynol, yn ddi-dâl:

Trosolwg sectorau

- Datblygiadau masnach
- Tueddiadau trosiant
- Sefyllfa'r farchnad
- Rhagolwg a gobeithion

Natur masnach

- Arferion gweithredu
- Jargon a nodweddion arbennig
- Cymysgedd gwerthiant
- Natur dymhorol
- Ffactorau sy'n effeithio ar werthiant
- Prif gofnodion
- Cwsmeriaid – telerau a gynigiwyd
- Cyflenwyr – telerau a gafwyd

Gwybodaeth am ddechrau busnes

- Costau tebygol

Deddfwriaeth

- Deddfwriaeth benodol i fasnach
- Deddfwriaeth gyffredinol
- Iechyd a diogelwch
- Deddfau cyflogaeth
- Gofynion trwyddedu
- Lle i gael rhagor o wybodaeth

CANOLBWYNT BUSNES CCH

Dangosyddion perfformiad

- Prif ddangosyddion perfformiad
- Tueddiadau cymarebau
- Ffactorau'n effeithio ar gymarebau
- Cymarebau allweddol eraill

Materion archwilio

- Materion i'w hadolygu
- Dethol
- Adolygu beirniadol
- Cyfweld
- Camau pellach
- Prawf modd
- Setliad
- Ymarfer economeg fusnes

Materion cyfrifeg

- Meysydd i'w hadolygu
- Sefyllfa TAW

Ystadegau

- Ystadegau amrywiol

Rhagor o wybodaeth

- Cyfeiriadau defnyddiol
- Cymdeithasau masnachol
- Cyfnodolion a chyhoeddiadau arbenigol

Bydd yr holl wybodaeth hynod werthfawr hon yn rhoi cipolwg manwl i chi ar eich crefft / galwedigaeth (os yw ar gael yn y gronfa ddata). Mae'r nodiadau'n cael eu diweddaru o hyd i ystyried y wybodaeth ddiweddaraf, ac mae nodiadau newydd yn cael eu hychwanegu o hyd.

YMCHWILIO EICH MARCHNAD

Eisiau dysgu mwy am farchnad arbennig? Mae Llinell Fusnes yn gallu cael gafael ar amrywiaeth eang o adroddiadau ymchwil marchnata sy'n ddelfrydol i gefnogi cynlluniau busnes a dangos tueddiadau presennol a rhagolygon y dyfodol ac ati, ar gyfer yr holl sectorau pwysig y farchnad. Gadewch i ni nodi'r adroddiadau gorau i'ch anghenion ac, wrth wneud hynny, arbed un o'ch adnoddau mwyaf gwerthfawr – amser.

Adroddiadau Keynote:

Keynote yw'r adroddiadau ymchwil marchnata mwyaf cynhwysfawr y gallwn eu cael yn llawn, yn aml dros 100 tudalen, yn rhoi trosolwg ystadegol trylwyr o dueddiadau cyfredol a disgwyliedig y dyfodol. Mae modd llungopïo hyd at 10% o unrhyw adroddiad Keynote (fel arfer tuag 20 tudalen) ar y safle neu ei e-bostio os bydd angen. Rydym yn gallu rhoi mynediad at adroddiadau sy'n aml yn costio rhyw £800 neu fwy yn hollol ddi-dâl.

Adroddiadau Euromonitor

Gallwn ddarparu adroddiadau Euromonitor, yn ddi-dâl, naill ai mewn dull electronig trwy e-bost neu fel copi caled. Er nad ydynt mor drylwyr ag adroddiadau Keynote, gallant roi ystadegau defnyddiol ar amrywiaeth eang o feysydd y farchnad.

YMCHWILIO EICH MARCHNAD

Crynodebau Marchnad y DU:

Fel arfer yn 10-15 tudalen gallwn ddarparu crynodebau marchnad y DU yn ddi-dâl mewn dull electronig neu fel copi caled. Fel arfer byddant yn canolbwyntio ar feysydd sy'n cwmpasu datblygiadau a chyfleoedd y farchnad, tueddiadau presennol, materion y dyfodol ac ati.

Ystadegau Demograffig:

Mae amrywiaeth eang o ystadegau demograffig ac eraill o'r fath ar gael i Linell Fusnes. Bydd y rhain yn rhoi gwell dealltwriaeth i chi o gyfansoddiad cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y cylch lleol, ynghyd â threfi a dinasoedd ledled y wlad. Enghraifft o'r ystadegau demograffig y gallwn eu darparu yw:

- Dadansoddiad poblogaeth yn ôl oed ac ardal
- Incwm cartrefi yn ôl ardal
- Cyflogaeth yn ôl ardal
- a llawer mwy

Er enghraifft, gall y data hyn fod o ddiddordeb arbennig i fentrwyr y bydd eu busnes craidd yn canolbwyntio ar ystod oedran benodol, e.e. meithrinfeydd dydd ac ati.

RHEDEG BUSNES

Mae angen i unrhyw fusnes llwyddiannus wneud penderfyniadau gwybodus. Mae Llinell Fusnes yn gallu rhoi'r wybodaeth i chi allu gwneud penderfyniadau o'r fath yn effeithlon ac effeithiol.

Taflenni Gwybodaeth Busnes:

Mae amrywiaeth eang o ffeithlenni gwybodaeth fusnes ar gael i ni (cofiwch ofyn am restr), pob un ohonynt hyd at bedair tudalen. Gan roi cipolwg byr ond manwl ar y meysydd allweddol canlynol, fe all y ffeithlenni hyn fod yn adnodd defnyddiol i fusnesau presennol a newydd ar lawer achlysur:

- Gwybodaeth Busnes
- Staff Busnes
- Yr Amgylchedd
- Ewrop
- Cyllid
- Iechyd a Diogelwch
- Technoleg Gwybodaeth
- Eiddo Deallusol
- Masnach Ryngwladol
- Materion Cyfreithiol
- Rheoli
- Marchnata
- Cyn Dechrau
- Eiddo ac Adeiladau
- Staff
- Cludiant a Dosbarthu

RHEDEG BUSNES

Bydd ffeithlenni'n cael eu diweddaru o hyd i gydymffurfio â newidiadau mewn deddfwriaeth ac i ymgorffori syniadau newydd. Gallwn ddarparu rhai o ddiddordeb fel copi caled neu mewn dull electronig yn ddi-dâl.

Llyfrau ar gael i'w benthyg:

Mae gan Linell Fusnes amrywiaeth eang o lyfrau busnes a CD-ROM cyfredol, yn cwmpasu holl brif feysydd busnes, 90% ohonynt ar gael i'w benthyca. Ar gael i ni hefyd mae nifer o gyfeiriaduron arbenigol, allai fod yn ddefnyddiol wrth gynllunio ymgyrchoedd marchnata ac ati.

Gwelwch dudalen 18 am ddadansoddiad llawn o holl gategorïau llyfrau sydd ar gael yn Llinell Fusnes.

CRONFEYDD DATA ARBENIGOL

Mae Llinell Fusnes yn tanysgrifio i ddwy gronfa data flaenllaw o gwmnïau, dros y DU gyfan, all helpu eich busnes:

- Nodi targedau gwerthu newydd heb lawer o ymdrech
- Targedu cyflenwyr newydd neu wahanol
- Nodi cystadleuwyr
- Ymchwilio cwmnïau arbennig

Y ddwy gronfa ddata sydd ar gael i ni yw:

- **Kompass Extranet**
  Cwmnïau cysylltiedig â diwydiant yn bennaf h.y. gwneuthurwyr a dosbarthwyr
- **Thomson Business Search Pro**
  Busnesau gwasanaeth yn bennaf, h.y. adwerthwyr ac ati

Gan gydweithio gallwn roi rhyddid i chi drin a manwl gyweirio chwiliadau trwy ddefnyddio hidlyddion niferus, i gael y canlyniadau penodol a fynnwch. Mae cyfleusterau lawrlwytho datblygedig yn golygu y gallwn drosglwyddo gwybodaeth yn gyflym i ffurf Excel, a chaniatáu creu rhestri gwerthu a marchnata hyblyg ac ati i'w defnyddio ar unwaith. Mae'r cronfeydd data hyn yn gadael i ni gael gafael ar wybodaeth ddiweddar a thrylwyr yn gyflym am gwmnïau, sy'n aml yn anodd, yn ddrud ac yn mynd ag amser. Peidiwch â phetruso cyn cysylltu â ni os byddwch angen pecyn chwilio am gwmnïau, sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am sut y gallwn hidlo pob un o'r cronfeydd data. Fel arall, croeso i chi alw heibio, e-bostio neu ffonio i drafod eich gofynion. Byddwn yn falch dros ben o roi sylw i unrhyw gwestiynau sydd gennych.

CRONFEYDD DATA ARBENIGOL

Kompass Extranet:

Adnodd rhagorol i gael gafael ar gyflenwyr a chynhyrchu rhestri gwerthu cwmnïau sy'n gweithredu yn y sector diwydiannol h.y. gwneuthurwyr a dosbarthwyr. Gallwch elwa ar drefn ddosbarthu fanwl Kompass sydd dros 4 gwaith yn fwy manwl na chodau SIC safon. Gyda mwy na 57,000 o benawdau cynnyrch a gwasanaeth a thros 23 miliwn o gyfeiriadau at gynnyrch gallwch leoli'r union gwmni neu gwmnïau sydd o ddiddordeb i chi. Dewis ac ymgorffori hidlyddion niferus mew chwiliadau, i greu rhestri y gallwch eu defnyddio at ddibenion gwerthu, marchnata, prynu ac ymchwil. Mae gwybodaeth y gallwn ddarparu o'r gronfa ddata hon yn cynnwys:

- Enw'r cwmni
- Cyfeiriad
- Rhif ffôn
- Rhif ffacs
- Nifer y cyflogeion
- Ffigurau gwerthiant
- Disgrifiad byr a thrylwyr o'r busnes
- Cyfeiriad e-bost
- Cyfeiriad gwefan
- Enwau cyswllt ar gyfer gwahanol enwau swyddi

Gallwn ddarparu mwyafrif mawr y data hyn am ddim.

CRONFEYDD DATA ARBENIGOL

Thomson Business Search Pro:

Mae Business Search PRO yn ffynhonnell ddata wobrwyol cynhyrchu rhestri data busnes manwl gywir wedi'u targedu ar gyfer postio uniongyrchol a thelefarchnata. Yn cael ei yrru gan Thomson Local Business Database enwog o dros 2 filiwn o gysylltiadau busnes, mae Business Search PRO yn derbyn diweddariadau wythnosol, sy'n ei osod ar wahân ar unwaith fel ffynhonnell hynod werthfawr o wybodaeth gywir a chyfoes am gwmnïau i gynhyrchu trywyddau gwerthu ac ati. Mae modd ymgorffori hidlyddion chwilio fel y bo'n briodol i ffurfio canlyniadau a deilwriwyd i'ch union ofynion. Mae gwybodaeth y gallwn ddarparu o'r gronfa ddata hon yn cynnwys:

- Enw'r cwmni
- Cyfeiriad
- Rhif ffôn
- Rhif ffacs
- Cyfeiriad gwefan
- Nifer y cyflogeion
- Blynyddoedd ers sefydlu
- Math o eiddo ac adeiladau
- Math o fusnes
- Disgrifiad SIC
- Trosiant
- Amcangyfrif o'r trosiant
- Elw cyn treth
- Enw cyswllt a swydd

Fe all fod angen codi tâl.

YMCHWILIO STATWS CREDYD

Adroddiadau Credit Safe:

Mae ymchwiliadau i statws credyd yn adnodd poblogaidd. Trwy ddefnyddio'r gwasanaeth hwn byddwch yn gallu gwirio statws credyd cwmnïau cyfyngedig yn unrhyw fan yn y DU. Mae buddiannau ymchwiliadau i statws credyd yn niferus, er enghraifft:

- Dangos a yw cwmnïau sy'n gweithio gyda chi yn gallu talu am nwyddau neu wasanaethau y gofynnwyd i chi eu cyflenwi.

- Gallwch hefyd ddefnyddio'r ymchwil i gael gwybod hyfywedd ariannol eich cyflenwyr a, wrth wneud hynny, peidio â gwneud busnes ag unrhyw gwmnïau statws credyd gwael.

- Os ydych yn meddwl am fynd i bartneriaeth gyda chwmnïau cyfyngedig eraill gall fod yn fuddiol ymchwilio i'w statws ariannol ac asesu pa mor ddibynadwy ydynt cyn llofnodi'r contract a ffurfio perthynas waith.

Mae maint yr ymchwil yn amrywio; mae faint o wybodaeth sydd ar gael yn cael ei bennu'n bennaf gan amgylchiadau personol a gweithgareddau pob cwmni ac ati.

YMCHWILIO STATWS CREDYD

Fel golwg byr, mae'r wybodaeth yn yr adroddiadau hyn yn cynnwys:

- Crynodeb cyffredinol o'r cwmni
- Gwybodaeth am y cwmni
- Manylion morgeisi / manylion cyfranddalwyr
- Manylion cyfeiriad masnachu
- Dadansoddiad llawn a chymharu'r cyfrifon (o un flwyddyn i'r llall)
- Statws / sgôr credyd
- CCJ
- Hanes statws
- Hanes digwyddiadau
- Manylion cyfarwyddwyr

I ofyn am ymchwilio i statws credyd galwch heibio, ffoniwch neu e-bostiwch ni'n dweud enw'r cwmni neu gwmnïau sydd o ddiddordeb i chi.

Cofiwch sôn wrthym os byddwch eisiau gweld enghraifft.

Gallwn roi hyd at bedwar ymchwiliad i statws credyd i chi bob chwarter yn hollol ddi-dâl. Pris rhesymol iawn unrhyw adroddiadau ychwanegol yn ystod y cyfnod tri mis yw £5 yr un.

Adroddiadau Cyfarwyddwyr a Choed Cwmnïau:

Gallwn hefyd ddarparu adroddiadau am ddim sy'n nodi'r holl gwmnïau cyfyngedig eraill y mae cyfarwyddwr penodol yn gysylltiedig â hwy. Felly hefyd adroddiadau'n taflu golwg dros y strwythur grwpiau cwmni.

ADNODDAU DYNOL

Yn aml adnoddau dynol yw ased mwyaf gwerthfawr cwmni, sy'n caniatáu iddo redeg yn esmwyth ac effeithiol. Mae ein hadnoddau'n cwmpasu pob agwedd ar reoli adnoddau dynol o gyflogi staff am y tro cyntaf, creu contractau cyflogi, materion cyfreithiol i fod yn ymwybodol ohonynt, cyflwyno technegau cymell a gweithio fel tîm ac ati.

Croner-I:

Gan ddefnyddio'r ffynhonnell wybodaeth hon rydym yn gallu darparu deddfwriaeth gyfredol, templedi contract a pholisi (sy'n hawdd eu haddasu at ddefnydd eich cwmni) a throsolygon / taflenni cyfarwyddyd ar bob agwedd ar reoli adnoddau dynol. Isod mae rhestr gryno o'r meysydd sy'n cael eu trin yn y pecyn. I gael rhagor o wybodaeth croeso i chi ofyn am y pecyn Adnoddau Dynol.

- Absenoldeb ac amser gweithio
- Contractau cyflogi
- Disgyblaeth ac achwyniadau
- Camwahaniaethu ac amrywiaeth
- Iechyd a Diogelwch
- Rheoli adnoddau dynol
- Strategaeth adnoddau dynol
- Absenoldeb mamolaeth a rhieiniol
- Cyflogau a budd-daliadau
- Denu a Dewis
- Terfynu cyflogaeth
- a llawer mwy

ADNODDAU DYNOL

Meincnodi Cyflogau IDS:
Eisiau gwybod am gyflogau gwahanol alwedigaethau ar hyd a lled y DU? Os felly, mae gwybodaeth feincnodi ddiweddaraf ar gyflogau ar gael i Linell Fusnes, allai fod o ddefnydd wrth gynllunio cyflogau staff bob yn awr a blynyddol.

Adnoddau eraill:
Mae gan Linell Fusnes amrywiaeth eang hefyd o lyfrau cyfredol ar adnoddau dynol, 90% ohonynt ar gael i'w benthyca. Mae nifer o gyfeiriaduron arbenigol ar gael i ni hefyd, allai fod yn ddefnyddiol. Gwelwch dudalen 20 am ddadansoddiad llawn o'r holl ddosbarthau llyfrau sydd ar gael yn Llinell Fusnes.

Gallwn hefyd ddarparu Taflenni Gwybodaeth Busnes niferus am faterion cysylltiedig ag adnoddau dynol fel hysbysebu am staff, denu staff, delio ag absenoldeb gweithiwr cyflogedig ac ati.

LLYFRAU A CHYFEIRIADURON BUSNES

Mae Llinell Fusnes yn cadw amrywiaeth eang o lyfrau busnes cyfredol, CD-ROM a chyfeiriaduron arbenigol yn cwmpasu holl feysydd busnes allweddol. Dosbarthwyd eitemau yn ôl maes busnes, fel ei bod yn hawdd cael hyd i adnoddau ar gyfer pwnc arbennig. Isod mae golwg byr dros ein cyfundrefn ddosbarthu:

	Lliw Silffoedd
- Dechrau Busnes	GWYRDD
- Cyfathrebu	OREN
- Marchnata	COCH
- Adnoddau Dynol	SAETS
- Rheoli	LLIW CASTAN
- Gweithgynhyrchu	LLWYD
- Y Gyfraith	PINC
- Cyllid	GLAS
- TG	MELYN
- Ystadegau	GWYN
- Cyfeiriaduron Busnes	DU
- Diwydiannau Penodol	GWYN

Fel y gwelwch ar y ddwy dudalen nesaf, isrannwyd pob maes wedyn yn bynciau penodol. Mae 90% o'n hadnoddau ar gael i'w benthyg. Croeso i chi bori trwy ein holl adnoddau yng nghatalog ar-lein y llyfrgell, a gewch drwy'r ddolen ganlynol. Gan ddibynnu ar eich dewis gallwch chwilota yn ôl enw, awdur neu ddosbarth (rhowch liw'r silff yn y maes hwn)

http://www.wrecsam.gov.uk/libraries

Businessline Books For Loan

Shelf Guide



Shelf Guide

Businessline Books For Loan

RHWYDWAITH

Mae rhwydweithio'n ffordd boblogaidd ac effeithiol iawn o gyfarfod pobl fusnes eraill a hyrwyddo eich gwasanaethau.

Mae Llinell Fusnes yn rhedeg clwb rhwydweithio cost-effeithiol sy'n anelu at fusnesau bach lleol a busnesau newydd sy'n dechrau. Am ddim ond £46 y flwyddyn (gan gynnwys TAW), allwch chi ddim fforddio peidio ag ymuno. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol am giniawau gan fod y rhain yn y tâl aelodaeth. Hefyd nid oes gofyn i chi fynychu pob cyfarfod, dim ond y rhai y gallwch.

Mae Rhwydwaith yn creu amgylchedd cyfeillgar a chefnogol i bobl fusnes ryngweithio, rhannu profiadau, datrys problemau a ffurfio cysylltiadau. Cewch gyfle i gyfarfod pobl newydd, hyrwyddo eich busnes a gwrando ar siaradwyr perthnasol ar amrywiaeth o bynciau.

Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal ddwywaith y mis, y cyntaf yn gyfarfod amser cinio yn Nhŷ Erlas, Lôn Bryn Estyn 12pm-2pm, ar ail ddydd Llun y mis. Yr ail yw cyfarfod nos yn Llyfrgell Wrecsam 7pm-9pm, ar ddydd Llun olaf y mis. Mae ffurf benodol i'r cyfarfodydd cinio, sy'n cynnwys rhwydweithio anffurfiol dros ginio bwffe, marchnata eich nwyddau / gwasanaethau eich hun i aelodau eraill ac amrywiol siaradwyr busnes gwadd. Yn gyffredinol mae'r cyfarfodydd nos yn fwy anffurfiol sy'n caniatáu i aelodau gyfnewid profiadau a gofyn cyngor ac ati.

Yn ogystal â'r cyfarfodydd misol bydd aelodau hefyd yn derbyn taflen newyddion sy'n cynnwys adolygiadau o'r cyfarfodydd, digwyddiadau / cyfleoedd busnes i ddod a newyddion busnes cyffredinol ac ati.

Mae aelodau Rhwydwaith yn talu prisiau is hefyd am amrywiaeth o wasanaethau Llinell Fusnes. I gael rhagor o wybodaeth am Rhwydwaith cofiwch alw heibio, ffonio neu e-bostio eich ymholiad.

SUT I GAEL HYD I NI

- Ein nod yw ateb ymholiadau cyn pen diwrnod ar ôl eu derbyn, gydag ymholiadau rhwydd yn cael eu hateb ar unwaith. Byddwn yn trafod faint o amser sydd ei angen i ateb ymholiadau cymhleth gyda chi.

- Caiff mwyafrif mawr ein gwasanaethau eu darparu am ddim, heb gostau cudd.

- Rydym yn hyblyg o ran eich anghenion ac yn cynnig dewis ffurf y wybodaeth sydd arnoch ei hangen a sut i'w hanfon atoch.

Llyfrgell Wrecsam, Ffordd Rhosddu, Wrecsam, LL11 1AU

(01978) 292092
businessline@wrecsam.gov.uk